



CROESair Gweithredwyr Ffeministaidd

Ar draws

2. Grŵp o fenywod ym Mhrydain a fu'n ymgyrchu dros hawl merched i bleidleisio ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif.

7. Grŵp o fenywod o Tsieina a arestwyd am gynnal protestiadau cyhoeddus yn erbyn dioddef aflonyddu ar gludiant cyhoeddus fel bysiau a threnau.

8. Gweithredwr o Bacistan dros addysg merched ac enillydd ieuengaf erioed Gwobr Heddwch Nobel am ei gwaith ar hawliau plant

10. Symudiad byd-eang i roi stop ar aflonyddu ar y stryd a sicrhau mynediad cyfartal i fannau cyhoeddus. Mae eu henw'n golygu tynnu sylw at rywbeth.

12. Ymgyrch i sicrhau arian am waith di-dâl yn y cartref megis gofal plant, glanhau a choginio, a'i bwysigrwydd o ran cynnal y rhai sy'n gweithio y tu allan i'r cartref.

13. Elusen dan arweiniad pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig sy'n herio trais ar sail rhywedd. Mae eu henw yn golygu dod â phobl ifanc ynghyd yn gyfartal.

14. Rhwydwaith o weithredwyr benywaidd ifanc ym Mrasil. Eu henw yw'r gair Portiwgaleg am 'Nawr gyda'n Gilydd'.

16. Grŵp roc pync o Rwsia a gynhaliodd berfformiadau cyhoeddus yn beiriadu'r Arlywydd Vladimir Putin a'i bolisiâu yn erbyn hawliau menywod a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

17. Symudiad byd-eang dan arweiniad 12 menyw Fwslimaidd sy'n brwydro dros gyfiawnder a chydaddoldeb o'r tu mewn i'r traddodiad Islamaidd. Ystyr eu henw Arabeg yw cydraddoldeb.

18. Cynghrair yn Sbaen a fu'n ceisio grymuso menywod dosbarth gweithiol yn ystod y 1930au. Ystyr eu henw Sbaeneg yw 'Menywod Rhydd'.

19. Ymgyrch yn America Ladin yn erbyn trais ar sail rhywedd. Ystyr yr enw Sbaeneg yw 'Dim Un yn Llai'.

I lawr

1. Sefydliad yn Awstralia sy'n hybu gweleddd menywod a lleiafrifoedd ym myd cerddoriaeth. Mae eu henw yn air am fod yn barod i glywed rhywbeth.

3. Sefydlwyd y grŵp hwn gan yr Athro Wangari Maathai, ac mae'n trefnu bod menywod yng nghefn gwlad Cenia yn plannu coed ac yn amddiffyn yr amgylchedd.

4. Americanaes o Puerto Rica a fu'n brwydro dros hawliau menywod trawsryweddol.

5. Sefydliad yn India sy'n gweithio dros hawliau a lles menywod trawsryweddol. Eu henw yw'r gair Hindi am chwaeroliaeth neu sibling.

6. Awdur 'We Should All Be Feminists' o Nigeria a fu hefyd yn rhan o gân Beyonce, 'Flawless'.

9. Grŵp a sefydlwyd gan yr Arglwyddes Rhondda ym 1921, a fu'n ymgyrchu dros gydraddoldeb rhwng dynion a menywod, a hawliau'r plentyn.

11. Grŵp o artistiaid benywaidd a ffurfiwyd yn Ninas Efrog Newydd. Maen nhw'n cuddio eu hwynebau â mygydau gorila ac yn brwydro yn erbyn rhywiaeth a hiliaeth ym myd celf.

15. Grŵp gweithredu uniongyrchol sy'n gwrthwynebu toriadau ariannol i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr trais ar sail rhywedd yn y Deyrnas Unedig.

20. Grŵp o fenywod sy'n hanu o Dde Asia a helpodd i amddiffyn clybiau amlddiwylliannol yn y Deyrnas Unedig ar ddechrau'r 1980au. Mae eu henw'n cyfeirio at ddilledyn o Dde Asia, sef darn o gotwm neu sidan sy'n cael ei lapio am y corff.



Cliciwch yma am yr atebion!